BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R A489 (CAERSŴS, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2009

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd wrth ddynesu at y groesfan reilffordd ar Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Nghaersŵs yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn, sydd yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 24 Hydref 2009 ac yn para am 18 mis fan bellaf, yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darnau hynny o gefnffyrdd yr A470 a'r A489 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad.

Bydd y Gorchymyn mewn grym ar yr adegau hynny ac i'r graddau a ddangosir gan arwyddion traffig.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/localstat/temptraff1/2009/?skip=1=cy

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 600 metr i'r de-orllewin o'r groesfan reilffordd yng Nghaersŵs hyd at y groesfan honno.

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'r groesfan reilffordd yng Nghaersŵs hyd at bwynt 600 metr i'r dwyrain o'r groesfan honno.

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A489 yng Nghaersŵs hyd at bwynt 450 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A470 & A489 TRUNK ROADS (CAERSWS, POWYS) (TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2009

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to ensure the safety of road users on the approaches to the level crossing on the Newtown – Aberystwyth Trunk Road (A470) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Caersws in the County of Powys.

The effect of the Order, which comes into force at 00:01 hours on 24 October 2009 and has a maximum duration of 18 months, is to impose temporarily a 50 mph speed limit on those lengths of the A470 and A489 trunk roads specified in the Schedule to this Notice.

The Order will be in force during such times and over such extent as will be shown by traffic signs.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/localstat/temptraff1/2009/?lang=en

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

SCHEDULE

That length of the A470 trunk road that extends from a point 600 metres south west of the level crossing at Caersws to the said level crossing.

That length of the A489 trunk road that extends from the level crossing at Caersws to a point 600 metres east of the said level crossing.

That length of the A470 trunk road that extends from its junction with the A489 at Caersws to a point 450 metres north west of the said junction.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.